**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/0942/20

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

3 Ebrill 2020

Annwyl Dai

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Chwefror ar ran y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, yn gofyn am ragor o fanylion am y Tasglu Gweinidogol ar Argaeledd Ambiwlansys, a chynigion ar gyfer system o gymelliadau a sancsiynau i gefnogi gwelliannau mewn perfformiad trosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans.

Bydd y Tasglu yn canolbwyntio ar yr angen am welliannau ehangach ar draws y system gyfan sy'n adlewyrchu ac yn ymateb i amgylchedd newidiol y mae'r gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru yn gweithredu ynddo. Bydd hyn yn cynnwys y newid yn y galw a'r perfformiad ar gyfer galwadau Coch, oedi wrth drosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans a'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach.

Caiff y Tasglu ei gyd-gadeirio gan Stephen Harrhy, Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a'r Athro David Lockey, Cyfarwyddwr Cenedlaethol EMRTS Cymru, gyda'r aelodau eraill yn cynnwys arweinwyr perthnasol o bob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Ceir copi o'r cylch gorchwyl, gan gynnwys rhestr lawn o aelodau'r Tasglu yn Atodiad 1. Caiff y Tasglu hefyd ei gefnogi gan Grŵp Llywio, ac mae cylch gorchwyl a rhestr ddrafft o aelodau’r grŵp hwnnw wedi'i atodi yn Atodiad 2.

Gan ystyried y pwysau presennol sydd ar y GIG, mae'n bosibl y bydd angen gwneud diwygiadau pellach i'r cylch gorchwyl hwn ac i'r aelodaeth dros y misoedd nesaf. Yn ogystal â hynny, bydd y Tasglu’n manteisio ar ystod o grwpiau cynghorol proffesiynol arbenigol presennol i helpu i lywio'r waith.

Rwyf wedi bod yn glir gyda'r cyd-gadeiryddion bod yn rhaid i'r Tasglu ganolbwyntio ar gamau gweithredu a chanfod atebion, ac ni ddylai fod yn gaeth wrth brosesau. Rhaid iddo hefyd adeiladu ar y dystiolaeth sylweddol a'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud o ran sicrhau gwelliant yn argaeledd ambiwlansys. Credaf fod hyn yn cynnig cyfle clir i'r system gydweithio yn ddi-oed, a dangos uchelgais i sicrhau gwelliannau ar gyfer cleifion, perthnasau, gofalwyr a staff y rheng flaen.

Roeddwn wedi disgwyl derbyn adroddiad interim y Tasglu, yn cynnwys yr ystyriaethau cynnar, erbyn diwedd mis Ebrill, gyda'r adroddiad terfynol i ddilyn erbyn diwedd mis

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mehefin, yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd hyd yma a'r camau pellach a fydd angen eu cymryd o fewn amserlen benodol er mwyn sicrhau'r gwelliant gofynnol. Fodd bynnag, yn sgil y galw uchel am wasanaethau iechyd mewn ymateb i achosion o'r coronafeirws (COVID-19), rwyf wedi cytuno i ymestyn y dyddiad ar gyfer derbyn yr adroddiad interim.  Yn y cyfamser, rwyf wedi cael sicrwydd gan y cyd-gadeiryddion y bydd y gwaith paratoi, casglu data a'r dadansoddi yn parhau er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod cyntaf y tasglu yn ddiweddarach eleni.

Gan droi at ymholiad y Pwyllgor ynghylch cymelliadau i gefnogi gwelliannau mewn perfformiad trosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans, mae Prif Weithredwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol wedi cael eu gwahodd i wneud sylwadau ar Gylchlythyr drafft Iechyd Cymru yn amlinellu fframwaith newydd i wella ansawdd a pherfformiad mewn gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Bwriad y fframwaith drafft yw ysgogi Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu a chyflawni cynlluniau cadarn i gefnogi gwelliannau mewn perfformiad trosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans, drwy wobrwyo perfformiad a chynnydd da yn erbyn saith mesur sy'n gysylltiedig â lleihau'r nifer sy'n cael eu cludo mewn ambiwlans i Adrannau Brys a gwella llif cleifion drwy'r system ysbyty.  Bwriedir iddo hefyd wella perfformiad gwael ac achosion lle methwyd â gwella neu gynnal perfformiad trosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans, drwy newid diben cyllid presennol a'i glustnodi i fentrau a ddylai allu gwyrdroi'r duedd honno a chefnogi gwelliannau.  Dyma un elfen o’r defnydd ehangach o gymelliadau a fydd, maes o law, yn canolbwyntio ar rannau eraill o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng i ysgogi perfformiad gwell.

Mae fy swyddogion wedi ystyried yr ystod lawn o sylwadau a ddaeth i law, ac roedd yn galonogol nodi bod cefnogaeth gyffredinol ymhlith y Prif Weithredwyr ar gyfer yr egwyddor o ddefnyddio cymelliadau a sancsiynau i gefnogi gwelliannau. Cydnabuwyd hefyd fod y fframwaith yn cyd-fynd â gwaith sydd eisoes yn digwydd gan gynnwys llwybrau cymunedol amgen, dulliau uwchgyfeirio rhanbarthol a'r rhaglen Fframwaith Ansawdd a Chyflenwi Adrannau Brys.

Fy mwriad oedd y byddai'r cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi o 1 Ebrill 2020 ymlaen.  Fodd bynnag, er fy mod yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno'r fframwaith newydd, y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw ymateb i'r heriau newydd sy’n codi yn sgil y coronafeirws (COVID-19), ac felly byddaf yn gohirio cyhoeddi'r cylchlythyr am y tro.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a mireinio trefniadau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith newydd.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Atodiad 1**

# Y TASGLU GWEINIDOGOL AR ARGAELEDD AMBIWLANSYS

## CYFLWYNIAD

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fwriad i sefydlu Tasglu Gweinidogol ar Argaeledd Ambiwlansys, ynghyd â'i ddisgwyliadau am beth fydd diben ac amserlen gwaith y tasglu.

## CYLCH GWAITH

Bydd y Tasglu Gweinidogol ar Argaeledd Ambiwlansys yn arwain ar y canlynol:

- gweithredu'r argymhellion o adolygiad annibynnol a gomisiynwyd yn ddiweddar, "Galw a Chapasiti"
- cyflwyno, yn ddi-oed, lwybrau amgen ac atebion cymunedol i atal trawsgludiadau i adrannau brys, y gellid eu hosgoi.
- sicrhau bod y broses trosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans mor effeithiol â phosibl
- gwelliant mewn perfformiadau Coch
- adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y Rhaglen Gweithredu'r Adolygiad o Alwadau Oren

## AELODAU'R TASGLU

Caiff y Tasglu ei gyd-gadeirio gan Stephen Harrhy, Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a Dr David Lockey, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru). Bydd ar aelodaeth yn hyblyg, yn cynnwys rhanddeiliaid a effeithiwyd ac yn cynnig arbenigedd ar gais y Tasglu ac unrhyw is-grwpiau y gallai eu sefydlu.

### Aelodau Awgrymedig

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Stephen Harrhy (Cyd-gadeirydd) | Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans / Cyfarwyddwr y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal heb ei Drefnu |
| David Lockey (Cyd-gadeirydd) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru |
| Ian Harris | Meddyg Teulu / Gofal Sylfaenol |
| Chris Turner | Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys |
| Kevin Davies | Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Pauline Howie | Prif Weithredwr, Gwasanaethau Ambiwlans yr Alban, Caeredin |
| Julie Rogers | Cyfarwyddwr y Gweithlu, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) |
| Nicola Stubbins | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sir Ddinbych |
| Des Kitto | Swyddog Arweiniol<br>Cynghorau Iechyd Cymuned |
| Maria Battle | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Darron Dupre | Trefnydd Rhanbarthol ar gyfer UNSAIN Cymru |

| Enw | Teitl |
|---|---|
| | |
| Tom Crick | Athro Addysg a Pholisi Digidol, Prifysgol Abertawe |
| Andrew Sallows | Cyfarwyddwr y Rhaglen Gyflawni, Llywodraeth Cymru |
| Nick Wood | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Jason Killens | Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

**CWORWM**

Rhaid bod o leiaf wyth Aelod yn bresennol, gan gynnwys o leiaf un o'r cyd-gadeiryddion, er mwyn cael cworwm i'r Tasglu. Os fydd llai nag wyth Aelod yn bresennol, gellid parhau i gynnal busnes. Caiff penderfyniadau ond eu gwneud os derbynnir gwybodaeth ysgrifenedig gan y rheini nad ydynt yn bresennol.

**MODUS OPERANDI**

**Ffocws**

Bydd y Tasglu'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a chanfod atebion. Ni fydd yn gaeth i brosesau, a dylai adeiladu ar y dystiolaeth sylweddol a'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â sicrhau gwelliannau o ran argaeledd ambiwlansys.

**Grŵp Llywio**

Er mwyn sicrhau bod y Tasglu’n cynnal ei gylch gwaith yn ddi-oed, bydd yn sefydlu Grŵp Llywio a fydd yn cwrdd yn rheolaidd, a bydd, maes o law, yn sefydlu nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn arwain ar feysydd penodol o waith, gan gynnwys:

- Deall a gwella cynhyrchiant
- Y gweithlu, recriwtio a llesiant
- Newid digidol a thechnoleg mewn gwasanaethau ambiwlans
- Mesur ar gyfer gwella

Bydd y cyd-gadeiryddion yn penderfynu beth fydd union gylch gwaith ac aelodaeth y Grŵp Llywio, a bydd yn atebol yn uniongyrchol i'r Tasglu. Bydd y Grŵp Llywio yn cytuno ar gylch gwaith ac aelodaeth y grwpiau gorchwyl a gorffen. Yn yr un modd â'r Tasglu, bydd aelodaeth pob un o'r is-grwpiau yn hyblyg ac yn cynnwys cynrychiolaeth eang.

**Cyd-destun**

Bydd y Tasglu a'i is-grwpiau yn gweithredu'n unol â'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2020, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau mewn gofal heb ei drefnu dros gyfnod y gaeaf 2019/20, a'r camau nesaf er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-am-bwysau-gofal-heb-ei-drefnu-yn-ystod-gaeaf-201920-ar-camau?_ga=2.255727880.1878341728.1585081426-832368275.1548154346

**Cymorth**

**Atodiad 1**

Bydd Llywodraeth Cymru ac Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol y GIG yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Tasglu.

**Amseriad**

Mae'r Tasglu wedi cael ei sefydlu am gyfnod o 6 mis o fis Ionawr 2020. Caiff adroddiad interim ei gyflwyno cyn diwedd mis Ebrill 2020 gydag adroddiad terfynol i ddilyn erbyn diwedd mis Mehefin yn rhoi manylion y camau a gymerwyd hyd yma a pha gamau eraill sydd eu hangen, o fewn amserlen benodol, er mwyn sicrhau'r gwelliant gofynnol.

**Cyfathrebu**

Bydd y Tasglu'n cynnal gwaith cyfathrebu ar y cyd, gan geisio cyngor yn ôl yr angen. Caiff cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ei ddatblygu er mwyn pennu'r egwyddorion a'r dulliau ar gyfer cyfathrebu gwaith y Tasglu.

**Pa mor aml y cynhelir Cyfarfodydd**

Bydd y Tasglu'n gweithredu rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2020 ac yn cwrdd o leiaf dair gwaith i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

**Bydd Aelodau yn rhoi ystyriaeth i'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan):**

• **Anhunanoldeb**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.

• **Uniondeb**
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu mewn unrhyw ddyled arall i unigolion neu gyrff a allai ddylanwadu ar y ffordd y maent yn cyflawni'u dyletswyddau swyddogol.

• **Gwrthrychedd**
Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

• **Atebolrwydd**
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n briodol i'w swydd.

• **Bod yn Agored**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar yr wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

• **Gonestrwydd**

Mae'n ddyletswydd ddeiliad swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

• **Arweinyddiaeth**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl.

**Atodiad 2**

## GRŴP LLYWIO AR GYFER
## Y TASGLU GWEINIDOGOL AR ARGAELEDD AMBIWLANSYS

### CYFLWYNIAD

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fwriad i sefydlu Tasglu Gweinidogol ar Argaeledd Ambiwlansys, ynghyd â'i ddisgwyliadau am beth fydd diben ac amserlen gwaith y tasglu.

Bydd y Grŵp Llywio yn cefnogi gwaith y Tasglu.

### CYLCH GWAITH

Bydd y Tasglu Gweinidogol ar Argaeledd Ambiwlansys yn arwain ar y canlynol:

- gweithredu'r argymhellion o adolygiad annibynnol a gomisiynwyd yn ddiweddar, "Galw a Chapasiti"
- cyflwyno, yn ddi-oed, lwybrau amgen ac atebion cymunedol i atal trawsgludiadau i adrannau brys y gellid eu hosgoi.
- sicrhau bod y broses trosglwyddo cleifion o ofal ambiwlans yn un mor effeithiol â phosibl
- gwelliant mewn perfformiadau Coch
- adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y Rhaglen Gweithredu'r Adolygiad o Alwadau Oren

Bydd y Grŵp Llywio yn cynnal ei waith yn unol â chyfarwyddyd y Tasglu.

### AELODAU'R TASGLU

Caiff Grŵp Llywio'r Tasglu ei gadeirio gan Chris Turner, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Bydd yr aelodaeth yn hyblyg, yn cynnwys rhanddeiliaid a effeithiwyd ac yn cynnig arbenigedd ar gais y Grŵp Llywio ac unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen a allai gael eu sefydlu.

**Aelodau Awgrymedig**

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Chris Turner (Cadeirydd) | Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys |
| Ross Whitehead (Is-gadeirydd) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Pherfformiad, Tîm Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys |
| Tef Jansma | Optima Analyst,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Ricky Thomas | Pennaeth Gwybodeg,<br>Tîm Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys |
| Lee Brooks | Prif Swyddog Gweithredu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Gareth John | Rheolwr Gwella ac Arloesi<br>Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| Iain Roberts | Uwch-reolwr Gwella Gwasanaethau<br>Gwelliant Cymru |
| Jonathan Jones | Rheolwr y Rhaglen,<br>Tîm Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys |

DRAFT

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Gwenan Roberts | Ysgrifennydd y Pwyllgor,<br>Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys |
| I'W GADARNHAU | Cynrychiolydd o'r Byd Academaidd |
| I'W GADARNHAU | Cynrychiolydd o'r Uned Gyflawni Cyllid |
| I'W GADARNHAU | Rheoli Newid / Meddwl heb orwelion |
| Jonathan Whelan | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Andy Swinburn | Cyfarwyddwr Cyswllt Parafeddygaeth,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Lois Hough | Pennaeth Cyfathrebu Allanol,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Julia Sumner | Pennaeth Cyfathrebu Dros Dro<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Chris Polden | Rheolwr Gyfarwyddwr Ymgynghoriaeth Rheoli Ymchwil Weithredol mewn Iechyd |
| Will Oliver | Rheolwr Gwella Perfformiad<br>Yr Uned Gyflawni |
| Chris Moreton | Pennaeth Cyllid,<br>Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol |
| James Rodaway | Pennaeth Comisiynu a Rheoli Rhaglenni,<br>Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol |
| Aled Brown /<br>Sarah Bale | Llywodraeth Cymru |
| Hugh Bennett | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Comisiynu a Pherfformiad<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

**CWORWM**

Rhaid bod o leiaf hanner yr Aelodau'n bresennol er mwyn cael cworwm i Grŵp Llywio'r Tasglu. Os fydd llai na hanner yr Aelodau'n bresennol, gellid parhau i gynnal busnes. Caiff penderfyniadau ond eu gwneud os derbynnir gwybodaeth ysgrifenedig gan y rheini nad ydynt yn bresennol.

**MODUS OPERANDI**

**Ffocws**
Bydd Grŵp Llywio'r Tasglu yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a chanfod atebion. Ni fydd yn gaeth i brosesau, a dylai adeiladu ar y dystiolaeth sylweddol a'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â sicrhau gwelliannau o ran argaeledd ambiwlansys.

**Grŵp Llywio**
Er mwyn sicrhau bod y cylch gwaith yn cael ei gynnal yn ddi-oed, bydd Grŵp Llywio'r Tasglu yn sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a fydd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn arwain ar feysydd penodol o waith, gan gynnwys:

- Deall a gwella cynhyrchiant
- Y gweithlu, recriwtio a llesiant
- Newid digidol a thechnoleg mewn gwasanaethau ambiwlans
- Mesur ar gyfer gwella

Bydd y cyd-gadeiryddion yn penderfynu beth fydd union gylch gwaith ac aelodaeth y Grŵp Llywio, a bydd yn atebol yn uniongyrchol i'r Tasglu. Bydd y Grŵp Llywio yn

cytuno ar gylch gwaith ac aelodaeth y grwpiau gorchwyl a gorffen. Yn yr un modd â'r Tasglu, bydd aelodaeth pob un o'r is-grwpiau yn hyblyg ac yn cynnwys cynrychiolaeth eang.

**Cyd-destun**

Bydd y Grŵp Llywio a'i Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar y cyd â'r Tasglu, yn gweithredu'n unol â'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2020, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau mewn gofal heb ei drefnu dros gyfnod y gaeaf 2019/20, a'r camau nesaf er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-am-bwysau-gofal-heb-ei-drefnu-yn-ystod-gaeaf-201920-ar-camau?_ga=2.53761576.1878341728.1585081426-832368275.1548154346

**Cymorth**
Bydd Llywodraeth Cymru ac Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol y GIG yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Llywio.

**Amseriad**
Mae'r Tasglu wedi cael ei sefydlu i ddechrau am gyfnod o 6 mis o fis Ionawr 2020. Caiff adroddiad interim ei gyflwyno yn ystod haf 2020 gydag adroddiad terfynol i ddilyn cyn diwedd y flwyddyn yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd hyd yma a pha gamau eraill sydd eu hangen, o fewn amserlen benodol, er mwyn sicrhau'r gwelliant gofynnol. Bydd y Grŵp Llywio yn goruchwylio'r gwaith o ddrafftio'r adroddiad i'w gymeradwyo gan y Tasglu.

**Cyfathrebu**
Bydd y Tasglu yn cynnal gwaith cyfathrebu ar y cyd, gan geisio cyngor yn ôl yr angen. Caiff cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ei ddatblygu er mwyn pennu'r egwyddorion a'r dulliau ar gyfer cyfathrebu gwaith y Tasglu.

**Pa mor aml y cynhelir Cyfarfodydd**
Bydd y Tasglu yn gweithredu yn ystod 2020 ac yn cwrdd o leiaf dair gwaith i wneud yn siŵr bod cynnydd yn cael ei wneud.

**Bydd Aelodau yn rhoi ystyriaeth i'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan):**

• **Anhunanoldeb**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa’n ariannol neu’n faterol.

• **Uniondeb**
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu mewn unrhyw ddyled arall i unigolion neu gyrff a allai ddylanwadu ar y ffordd y maent yn cyflawni’u dyletswyddau swyddogol.

• **Gwrthrychedd**
Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

• **Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n briodol i'w swydd.

• **Bod yn Agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar yr wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

• **Gonestrwydd**

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliad swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

• **Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl.

DRAFFT